Chwarae Teg
Solutions | Atebion

Datblygu gweithlu amrywiol a hyblyg

Diben

Mae sefydliadau blaenllaw yn cydnabod manteision amgylchedd gwaith sy'n cefnogi diwylliant o ddatblygu gweithlu amrywiol. Mae'r gweithdy hwn yn edrych ar y syniadau diweddaraf ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithlu, beth sy'n ofynnol gan y gyfraith, ac yn rhoi gwybodaeth am fanteision cyflwyno arferion gweithio hyblyg yn eich gweithle.

Sut fyddwch chi'n elwa

Bydd grwpiau gwahanol o bobl yn cynnig sgiliau gwahanol sy'n gallu gwella gallu sefydliad i ddarparu nwyddau a gwasanaethau, gan arwain at gynnydd mewn cynhyrchu a chynhyrchiant. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Denu, recriwtio a chadw pobl o gronfa "ddoniau" eang
- Lleihau costau trosiant ac absenoldeb staff
- Meithrin ymrwymiad, morâl a theyrngarwch ymysg y gweithwyr
- Gwella creadigrwydd ac arloesedd
- Gwella dealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid a chleientiaid cyfredol
- Cynorthwyo i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Sut i reoli amrywiaeth er lles y busnes
- Sut i wella morâl, cadw staff a sicrhau bod timau'n gweithio'n fwy effeithiol
- Cydymffurfio â deddfwriaeth yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010
- Sut i nodi prinder sgiliau yn y dyfodol
- Sut i ddatblygu gweithlu medrus trwy fynd i'r afael â materion amrywiaeth
- Cael gafael ar adnoddau amrywiaeth

Hyd

1 diwrnod

Ffi

£185 + TAW y pen

Disgownt o 10% am ail gynrychiolydd o'r un sefydliad

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion